

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg –

Uned Gofal Dydd Bediatrig, Uned Puffin

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 12-13 Chwefror 2020

Dyddiad cyhoeddi: 05 Awst 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	20
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	29
4.	Beth nesaf?	36
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	37
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	38
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	39
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	41

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Gofal Dydd Bediatrig (PACU) Ward Puffin

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd o AGIC, dau adolygwr cymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd uned gofal dydd bediatrig yn lleoliad da i asesu a rhoi triniaeth i blant a phobl ifanc yn gyflym mewn amgylchedd pediatrig penodedig.

Roedd y staff ar y ward yn broffesiynol ac yn ymrwymedig i gydweithio i ddarparu gofal i'r cleifion. Gwelsom fod arweinyddiaeth gadarn ar yr uned.

Nododd y cleifion a'u rhieni/gofalwyr fod eu profiad ar y ward yn gadarnhaol a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes. Roedd hyn yn cynnwys gwendid o ran llywodraethu gwybodaeth ar y ward.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion a'u teuluoedd yn gadarnhaol am y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu cyfnod ar yr uned
- Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, a gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion yn yr ardaloedd y gwnaethom ymweld â nhw
- Gweithgarwch archwilio yn cael ei gyflawni ar y ward.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid datblygu'r llwybr/canllaw ar gyfer sepsis pediatrig a'i roi ar waith fel blaenoriaeth, a dylid darparu hyfforddiant perthnasol i bob aelod o'r staff
- Dylid cadw'r drws i'r ystafell cyffuriau a reolir ar glo bob amser a dylid sicrhau trefniadau diogel ar gyfer cael gafael ar yr holl gyffuriau yn yr ystafell sefydlogi

- Storio gwybodaeth yn ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig ac er mwyn cynnal cyfrinachedd y cleifion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Llwynhelyg wedi'i leoli yn Hwlfordd yn Sir Benfro, ac mae'n rhan o'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y bwrdd iechyd). Mae'r bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Mae'r Uned Gofal Dydd Bediatrig (PACU) neu Ward Puffin yn darparu gwasanaeth wyth awr y dydd (10am i 6pm), saith diwrnod yr wythnos fel rhan o'r gwasanaeth pediatrig aciwt yn y Gyfarwyddiaeth Menywod a Phlant.

Sefydlwyd yr uned hon sydd â 12 gwely i asesu a rhoi triniaeth i blant a phobl ifanc rhwng 0 ac 16 oed yn gyflym mewn amgylchedd pediatrig dynodedig. Gall cleifion fod yn hŷn nag 16 oed yn achos y cleifion hynny sydd o dan ofal meddyg ymgynghorol pediatrig.

Mae'r gwasanaeth yn asesu ac yn sefydlogi pob achos cyffredinol a gaiff ei dderbyn i'r uned bediatrig ar frys, yn ogystal â sicrhau darpariaeth ddewisol a drefnir ar gyfer adolygiadau, cleifion allanol ac achosion dydd.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r adran achosion brys ar gyfer pob atgyfeiriad brys (gan gynnwys atgyfeiriadau gan feddygon teulu, ymwelwyr iechyd a bydwragedd). Mae hefyd amrywiaeth o glinigau arbenigol sy'n cynnwys clinigau diabetes, epilepsi ac alergeddau, yn ogystal â meddygon ymgynghorol sy'n ymweld, nyrsys ysgol, nyrsys plant cymunedol a rhieni plant sydd â mynediad agored hirdymor.

Ni ddarperir gofal pediatrig i gleifion mewnol na gofal pediatrig dros nos ar yr uned. Caiff plant eu trosglwyddo i'r gwasanaeth cleifion mewnol pediatrig 24 awr yn Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd y cleifion a'u rhieni/gofalwyr yn gadarnhaol am eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth ac roeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais, cyfeillgar a chefnogol rhwng y staff a'r cleifion. Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd a oedd yn cynnal urddas cleifion.

Fodd bynnag, dylid sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur. Roedd pump ymatebwr o dan wyth oed, roedd tri ohonynt rhwng 8 a 10 oed ac roedd un claf rhwng 11 ac 14 oed. Gwnaethom hefyd siarad â chleifion a gofalwyr yn ystod yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Roedd y staff yn hyfryd ac yn barod i sgwrsio”

“Staff cyfeillgar”.

Cadw'n iach

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn yr uned. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i amddiffyn plant rhag y fflw a chynllun 'gwên iach' (i hybu brwsio dannedd). Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth a oedd ar gael am bynciau fel bwydo ar y fron, iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd rhai taflenni hybu iechyd yn cael eu cadw yn yr ystafell seminar lle nad oedd cleifion a'u rhieni/gofalwyr yn gallu cael gafael arnynt.

Dywedodd un claf y gwnaethom siarad ag ef fod nyrs wedi rhoi cyngor iddo ar sut i ofalu am ei hun a'i fod wedi cael cynnig taflenni gwybodaeth am sut i helpu ei blant i ofalu am eu hiechyd eu hunain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am hybu iechyd ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn yn dosturiol, yn garedig ac yn gyfeillgar tuag at y cleifion a'u rhieni/gofalwyr. Gwelsom staff yn trin cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Gwelsom hefyd fod staff yn cyfarch cleifion a oedd wedi mynychu'r uned yn y gorffennol yn bersonol drwy ddefnyddio eu henwau. Gwelsom arbenigwr chwarae yn siarad â phlentyn ifanc a'i riant yn garedig mewn modd dawel a hamddenol er mwyn tawelu eu meddyliau ynglŷn â llawdriniaeth arfaethedig.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion i'r graddau a oedd yn bosibl. Roedd drysau i ystafelloedd sengl yn cael eu cau ac roedd y llenni yn cael eu cau o amgylch gwelyau'r cleifion yn y cilfannau â mwy nag un gwely tra bod y staff yn rhoi gofal personol iddynt ac yn ystod sgysiau personol. Gwelsom staff yn trin cleifion â pharch wrth fynd gyda nhw i ystafelloedd unigol i drafod eu triniaeth neu eu gofal.

Yn ystod ein harolygiad gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur AGIC er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith, ac i gael gwybod eu barn ar safon y gofal. Derbyniwyd 13 o holiaduron wedi'u cwblhau gan y staff. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser.

Gwelsom fod ystafelloedd sengl ar gael os bydd angen i staff gael sgysiau sensitif â chleifion a'u rhieni/gofalwyr.

Roedd y trefniadau ymweld ar yr uned yn golygu bod y cleifion yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau, yn ôl eu dymuniad.

Roedd ystafell chwarae ar gael a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o deganau, llyfrau a gemau a oedd yn addas i blant o bob oedran. Dywedodd y staff wrthym, os byddai pobl ifanc yn mynychu'r uned i gael asesiad neu driniaeth, fod ystafelloedd sengl ar gael pe byddai eu hangen. Bydd hyn yn sicrhau y caiff eu preifatrwydd a'u hurddas eu cynnal yn ystod eu cyfnod ar yr uned.

Dywedwyd wrth y tîm arolygu fod pob claf sy'n mynychu'r uned yn cael ei bwyso ar ôl cael ei dderbyn. Gwelsom fod y cloriannau wedi'u lleoli yn y coridor ger gweithfan y nyrsys. Gwnaethom ystyried y gallai hyn gael effaith ar urddas rhai cleifion gan na fyddant o bosibl am gael eu pwyso mewn ardal gyhoeddus. Rydym yn cynghori y dylid symud y cloriannau i leoliad lle y gellir cynnal preifatrwydd cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod cyfarwyddiadau i'r uned yn cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty, gan olygu bod cleifion yn gallu dod o hyd iddi yn hawdd. Roedd yr oriau ymweld yn cael eu harddangos ar yr uned a oedd yn nodi'r trefniadau ynghylch amseroedd agor ac ymweld yr uned yn glir.

Roedd hysbysfwrdd wedi'i osod ger desg y dderbynfa a oedd yn arddangos gwybodaeth am fanylion staffio yr unigolion a oedd ar ddyletswydd. Roedd hyn yn cynnwys enwau'r staff a thiwnigau lliwiau penodol wrth ochr pob aelod o'r staff a oedd yn adlewyrchu eu dynodiadau. Byddai hyn yn helpu'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr i nodi'r staff a oedd yn gofalu amdanynt.

Gwelsom ei bod yn ofynnol i rieni/gofalwyr gofrestru yn y dderbynfa wrth gyrraedd yr uned, ac y cânt wedyn eu tywys gyda'r cleifion i'r ardal chwarae i aros am eu hapwyntiadau neu i gael eu hasesu. Mae toiledau ar gael yn yr ardal chwarae, a gwelsom fod y staff yn cynnig lluniaeth i'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd y cleifion a'u rhieni/gofalwyr a gwblhaodd holiadur a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddynt a'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y staff yn esbonio eu hiechyd iddynt mewn ffordd y gallent ei deall.

Gwnaethom siarad â chleifion a ddywedodd wrthym fod y staff wedi cyfleu'r hyn y gallent ei ddisgwyl o ran eu triniaeth iddynt yn glir, ac hefyd wedi dangos lluniau iddynt. Gwelsom hefyd fod y staff yn cymryd amser i siarad â chleifion yn unol â cham datblygu'r claf. Clywsom sawl sgwrs dros y ffôn rhwng aelodau o'r staff a rhieni, ac roedd pob un ohonynt yn gwrtais ac yn barchus. Gwelsom fod y rhieni/gofalwyr yn cael croeso cynnes i'r ward ac yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ynghylch gofal eu plentyn.

Gwelsom fod yr arbenigwyr chwarae yn treulio amser gwerthfawr gyda'r cleifion, yn annog chwarae ac yn ymgysylltu â'r rhieni ac yn gwrandao arnynt. Dywedodd y staff wrthym fod yr arbenigwyr chwarae yn aelodau hanfodol o'r

uned a'u bod yn chwarae rôl bwysig a chadarnhaol o ran profiad y plant ar yr uned. Gwelsom fod yr arbenigwyr chwarae yn helpu plant i ddeall eu gofal drwy ddefnyddio llyfrau lluniau ac iPads a oedd yn cynnwys cymhorthion cyfathrebu drwy declyn ac apiau synhwyrdd. Dywedodd y staff wrthym fod pasbortau cleifion unigol wedi cael eu datblygu a'u cyflwyno sy'n adnodd gwych i gleifion sy'n cael anawsterau wrth gyfathrebu.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gellid cael gafael ar y rhain er mwyn cefnogi'r cleifion hynny nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf o bosibl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gofyn i'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr beth yw eu dewis iaith. Gwnaethant hefyd ddweud fod rhai aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar yr uned. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur mai Saesneg oedd eu hiaith gyntaf a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn gallu siarad eu dewis iaith gyda staff.

Gwelodd y tîm arolygu fod arwyddion a phosteri dwyieithog yn amlwg ar yr uned. Byddai hyn yn helpu cleifion sy'n siarad Cymraeg drwy roi hyder iddynt ddefnyddio'r Gymraeg os mai dyna oedd eu dewis iaith.

Roedd bwrdd cipolwg ar ddiogelwch cleifion¹ wedi'i leoli gyferbyn â gweithfan y nyrsys yn yr uned. Roeddem o'r farn bod hwn yn adnodd da i gyfathrebu â'r staff drwy'r uned i gyd. Roedd blaenlythrennau'r cleifion yn cael eu defnyddio yn hytrach na'u enwau llawn er mwyn diogelu cyfrinachedd cleifion. Gwnaethom siarad â staff a oedd yn ymwybodol o gyflwr cleifion unigol, yr ymchwiliadau yr oedd angen eu cynnal a'u statws monitro ac adolygu.

Roedd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod teuluoedd yn cymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir ynghylch y gofal y mae eu plant yn ei gael bob amser neu fel arfer.

Gofal amserol

¹ Mae'r bwrdd cipolwg ar ddiogelwch cleifion yn cael ei ddefnyddio ar wardiau ysbyty er mwyn arddangos gwybodaeth bwysig am gleifion megis lefelau risg o heintiau, symudedd a llif derbyn a rhyddhau, ymhlith pethau eraill.

Gwelsom fod cleifion heb apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw sy'n dod i'r uned i gael eu hasesu neu i gael triniaeth ar frys yn cael eu trin mewn modd amserol. Mae clerics y ward yn rhoi gwybod i'r staff bod y claf ar ei ffordd, ac yn sicrhau bod cynlluniau ar waith i asesu a thrin cleifion yn brydlon pan fyddant yn cyrraedd yr uned. Gwnaethom hefyd weld tystiolaeth bod y staff yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw y diwrnod canlynol drwy adolygu pa driniaeth yr oeddent yn ei chael a sut y cânt eu trin. Gwnaethom siarad â staff a oedd yn meddu ar wybodaeth dda am y cleifion a oedd ar yr uned a'r gofal yr oedd ei angen arnynt.

Dywedodd y staff wrthym fod y rhan fwyaf o'r cleifion yn mynychu'r uned ar gyfer apwyntiadau a drefnir ymlaen llaw. Pan fydd angen asesiad neu driniaeth frys ar glaf heb apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw, dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhoi gwybod i'r cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw y bydd oedi posibl am fod claf arall wedi cael blaenoriaeth. Fodd bynnag, dywedodd un rhiant a gwblhaodd holiadur y gellid gwella'r cyfathrebu o ran amseroedd aros. Rydym yn argymhell y dylai'r staff sicrhau bod pob claf yn cael gwybod yn brydlon am unrhyw oedi posibl i'w driniaeth.

Gwelsom fod arsylwadau ar y cleifion yn cael eu cofnodi ar siart a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn nodi'r cleifion a allai fynd yn sâl neu ddatblygu sepsis². Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ganllaw neu lwybr sepsis pediatrig clir ar waith. Gwnaethom siarad â'r nyrs datblygu ymarfer a ddywedodd wrthym y sefydlwyd gweithgor ym mis Gorffennaf 2019 er mwyn datblygu llwybr/canllaw sepsis pediatrig, Dywedwyd wrthym fod y gwaith hwn yn arafach na'r disgwyl o ganlyniad i alwadau croes, a gwelsom dystiolaeth fod asesiad sylfaenol wedi cael ei gynnal a bod cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu. Cawsom sicrwydd fod y llwybr sepsis wrthi'n cael ei ddatblygu, ond rydym yn argymhell y dylid rhoi blaenoriaeth i'r gwaith er mwyn helpu staff i adnabod sepsis mewn cleifion, rhoi diagnosis ohono a'i reoli'n gynnar.

Dywedodd y staff wrthym, os bydd cleifion pediatrig yn mynychu'r adran achosion brys a bod angen eu trosglwyddo i uned dibyniaeth uchel, y bydd staff o'r uned yn mynd i ofalu amdanynt yn yr adran achosion brys cyn iddynt gael eu trosglwyddo. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw dynnu sylw at

² Adwaith sy'n peryglu bywyd i haint yw sepsis. Mae'n digwydd pan fydd eich system imiwnedd yn gorymateb i haint ac yn dechrau niweidio meinweoedd ac organau eich corff eich hun.

bwysigrwydd sicrhau bod staff yr uned a staff yr adran achosion brys yn gweithio gyda'i gilydd. Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod yn ystyried ffyrdd newydd o wella cysylltiadau â'r adran achosion brys a bod yr uned wrthi'n nodi dwy nyrs cyswllt o'r Uned Gofal Dydd Bediatrig er mwyn datblygu cydberthnasau â'r adran achosion brys a sicrhau adborth a deialog parhaus rhwng y ddwy adran. Dywedwyd wrthym fod y cysylltiadau rhwng yr adran achosion brys a'r uned yn cael eu cynnal drwy gyfarfodydd cydgysylltu rhwng prif nyrs yr adran achosion brys a staff yr uned.

Os bydd angen i glaf gael ei drosglwyddo o'r uned i'r uned dibyniaeth uchel neu'r gwasanaeth cleifion mewnol pediatrig yn ysbyty Glangwili, dywedodd y staff wrthym fod cerbyd ambiwlans dynodedig ar gael i'w drosglwyddo. Mae'r cerbyd hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i drosglwyddo cleifion mamolaeth, obstetreg a gynaecoleg. Dywedwyd wrthym y byddai meddyg pediatrig ymgynghorol yn gweld y claf cyn iddo gael ei drosglwyddo a bydd nyrs o'r uned yn hebrwng y claf os bydd angen. Pe na bai'r cerbyd ar gael, a bod y claf yn sâl iawn, dywedodd y staff wrthym y byddai'r claf yn cael ei drosglwyddo drwy alwad 999 brys i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Gwnaethom holi rheolwyr ynghylch yr effaith y bydd staff sy'n mynd gyda chleifion sy'n cael eu trosglwyddo yn ei chael ar yr uned, a dywedwyd wrthym eu bod yn trefnu staff cyflenwi o'r tîm ei hun neu o'r uned bediatrig yn ysbyty Glangwili. Dywedodd y rheolwyr wrthym na fu unrhyw broblemau hyd yma.

Mae gan yr uned giwbicl dibyniaeth uchel i blant gael eu sefydlogi os bydd angen. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar gyfer cleifion y mae angen eu trosglwyddo i'r uned gofal dwys bediatrig yn cael eu gwneud gyda Gwasanaeth Cludiant Acíwt i Blant Cymru a Gorllewin Lloegr (WATCH)³. Dywedodd y staff wrthym y caiff y trefniadau ar gyfer trosglwyddo pob claf eu hystyried yn unigol a'u bod yn sicrhau'r dull trosglwyddo mwyaf amserol a phriodol i'r plentyn.

Cawsom wybod nad oes cerbyd ambiwlans dynodedig ar gael rhwng 4pm a 6pm. Os bydd angen i glaf gael ei drosglwyddo ar ôl 4pm, ni fydd staff y cerbyd ambiwlans dynodedig yn trosglwyddo'r claf gan ei bod yn cymryd dwy awr i fynd i ysbyty Glangwili a nôl, a fyddai'n golygu bod y staff yn gorffen eu sifft yn hwyr.

³ Mae Gwasanaeth Cludiant Acíwt i Blant Cymru a Gorllewin Lloegr <https://www.watch.nhs.uk/> yn dîm sydd wedi'i gomisiynu ar y cyd sy'n gyfrifol am drosglwyddo plant sy'n ddifrifol wael ledled De-orllewin Lloegr a De Cymru.

Felly, caiff y cleifion eu trosglwyddo ar ôl 6pm pan fydd staff y sifft newydd yn dechrau eu sifft. Dywedwyd wrthym y gall hyn olygu oedi wrth drosglwyddo sy'n effeithio ar staff yr uned am fod angen iddynt aros ar ddyletswydd tan i'r claf gael ei drosglwyddo. Dywedwyd wrthym hefyd fod achosion lle y mae'n rhaid i staff weithio y tu allan i oriau wrth aros am y cerbyd ambiwlans dynodedig neu dîm casglu Gwasanaeth Cludiant Acíwt i Blant Cymru a Gorllewin Lloegr i drosglwyddo claf. Dywedodd y rheolwyr wrthym, yn yr achosion hyn, eu bod yn dibynnu ar ewyllys da'r staff i weithio'n hwyr, neu y caiff staff nad ydynt ar ddyletswydd eu galw i weithio. Dywedwyd wrthym hefyd fod adroddiad digwyddiadau yn cael ei gwblhau gan ddogfennu'r rhesymau yr oedd staff yr uned yn hwyr yn gadael, a bod rheolwr yn ymchwilio i bob adroddiad. Gwnaethom adolygu'r adroddiad gorffen yn hwyr a oedd yn dogfennu'r dyddiad a'r amser y caeodd yr uned, disgrifiad o'r amgylchiadau a'r rheswm dros gau yn hwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Y caiff llwybr/canllaw ar gyfer sepsis pediatriig ei ddatblygu a'i roi ar waith fel blaenoriaeth, ac y caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant perthnasol.
- Ei fod yn ystyried sut y gellir trosglwyddo pob claf mewn modd amserol heb ddibynnu ar ewyllys da'r staff i weithio'n hwyr pan fo angen.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom ei bod yn hawdd i bawb ddefnyddio'r cyfleusterau ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom fod y coridorau wedi'u goleuo'n dda ac nad oeddent yn cynnwys unrhyw beryglon baglu.

Gwnaethom siarad â'r arbenigwr chwarae a oedd yn ysbrydoledig wrth wneud gwaith chwarae a pharatoi gyda phobl claf unigol er mwyn sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu ar y ward. Roedd hyn yn cynnwys cleifion ag anghenion dysgu ychwanegol ac awtistiaeth. Gwnaethant ddisgrifio'r ffordd yr oedd cleifion yn paratoi ar gyfer triniaethau, er enghraifft, sganiau MRI⁴ drwy chwarae, gan felly leihau'r angen i ddefnyddio cyffuriau tawelu.

Yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd, gwelsom fod tystiolaeth o glaf a oedd wedi cael cyngor ar lafar a gwybodaeth ysgrifenedig pan gafodd ei ryddhau o'r ysbyty i'w helpu i ddeall sut i gymryd y feddyginiaeth yr oedd ei hangen arno gartref. Byddai hyn yn cefnogi, yn annog ac yn galluogi'r rhiant/gofalwr a'r plentyn i feddu ar y wybodaeth i ddeall y meddyginiaethau sy'n cael eu rhoi ac i barhau i roi'r feddyginiaethau gartref, gan hybu eu hannibyniaeth.

Hawliau pobl

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a'u rheini/gofalwyr a gwblhaodd holiaduron ac y gwnaethom siarad â nhw, yn cytuno eu bod yn cael cyfle i ofyn cwestiynau a chymryd rhan yn eu gofal. Esboniodd y cleifion i ni fod gwybod bod eu teulu yn rhan o'u gofal yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Gwelsom aelod o'r staff yn sgwrsio'n gadarnhaol â chlaf er mwyn sicrhau bod y claf yn hapus i aros ar yr uned am ychydig o oriau.

Dywedodd y staff wrthym fod anghenion ysbrydol a diwylliannol unigol y claf yn cael eu hystyried. Gwnaethom siarad ag arbenigwr chwarae a oedd yn ymwybodol iawn bod angen diwallu anghenion unigol y plant a'u rhieni/gofalwyr. Roedd yn frwdfrydig wrth siarad am blentyn yr oedd angen cyfieithydd arno i esbonio ei gyflwr meddygol. Dywedodd yr arbenigwr chwarae wrthym ei fod wedi trefnu i gyfieithydd fynd gyda'r plentyn i apwyntiad mewn ysbyty gwahanol a oedd wedi gwella ei brofiad yn sylweddol. Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty yn darparu ystafell aml-ffydd ac mae capel hefyd ar gael.

⁴ Mae delweddu atseiniol magnetig (MRI) yn fath o sgan sy'n defnyddio meysydd magnetig cryf a thonnau radio i greu delweddau manwl o'r tu mewn i'r corff.

Gwelsom bosteri Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn⁵ yn cael eu harddangos ar y waliau o amgylch yr uned. Mae'r posterï yn nodi'r deg addewid sy'n sicrhau y bydd plant a phobl ifanc yn ymwybodol y cânt eu parchu ac y bydd pobl yn gwrando arnynt ac yn gofalu amdanynt wrth iddynt dderbyn triniaeth yn yr uned.

Roedd ystafell chwarae ar gael i blant a phobl ifanc o bob oedran ei defnyddio. Roedd ystod eang o deganau, posau a llyfrau ar gael er mwyn helpu gyda datblygiad y plant. Gwelsom hefyd fod consolau gemau ar gael i blant hŷn eu defnyddio wrth iddynt aros i gael eu gweld. Dywedwyd wrthym y gall plant hŷn gael eu hystafell eu hunain ar gais. Bydd hyn yn sicrhau y caiff eu preifatrwydd a'u hurddas eu cynnal yn ystod eu cyfnod ar yr uned. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod digon o adloniant a phethau i'w gwneud ar y ward a oedd yn addas ar gyfer ei oedran.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelodd y tîm arolygu fod cleifion a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog yn rhagweithiol i roi adborth ar y gwasanaeth a'r gofal a gafwyd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gwelsom fod taflenni a phosterï yn cael eu harddangos o amgylch yr uned er mwyn annog y cleifion a'u rhieni/gofalwyr i roi adborth ac yn esbonio sut i wneud hynny. Roedd un o'r dulliau hyn yn cynnwys graddfa cylchoedd lliw a oedd yn galluogi cleifion a'u rhieni i roi cylch lliw mewn slot o'u dewis mewn blwch a oedd wedi'i leoli ger ardal y dderbynfa ar yr uned. Roedd gan y slotiau wynebâu arnynt - wyneb hapus, wyneb â hanner gwên ac wyneb trist - ac anogir y plant i roi cylch yn y slot er mwyn rhoi adborth ar eu gofal. Gwelsom hefyd fod blwch adborth ar gyfer sylwadau gan rieni/plant wedi'i leoli yn ardal y dderbynfa.

Dywedodd y staff a'r rheolwyr wrthym y byddent yn ceisio ymdrin ag unrhyw gwynion yn llygad y ffynnon, gyda'r nod o'u datrys yn gyflym. Dywedwyd wrthym fod manylion unrhyw gwynion yn cael eu hanfon ymlaen i'r gwasanaeth

⁵ Cytundeb hawliau dynol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, iechyd a diwylliannol plant.

cyngor a chyswllt cleifion⁶ yn yr ysbyty, rhag ofn y byddai cwyn ffurfiol yn cael ei gwneud. Roedd taflenni dwyieithog am weithdrefn gwyno Gweithio i Wella y GIG yn cael eu harddangos yn yr uned, er mwyn i gleifion eu dilyn pe bai ganddynt bryderon am eu gofal. Roedd gwybodaeth a oedd yn nodi manylion y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) ar gael hefyd. Gall y CIC ddarparu eiriolaeth a chymorth i gleifion wrth fynegi pryder am eu gofal. Roedd gwybodaeth am godi pryderon a chymorth eiriolaeth hefyd ar gael ar wefan y bwrdd iechyd. Dywedodd y rhieni/gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw ar yr uned y byddent yn gwybod sut i wneud cwyn am eu bod wedi gweld y wybodaeth yn cael ei harddangos drwy'r uned.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan y cleifion. Dywedodd y rheolwyr wrthym y caiff y staff eu hannog i roi gwybod am unrhyw gwynion neu bryderon ar system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym hefyd y caiff themâu neu faterion sy'n ailgodi eu nodi a rhoddir adborth i'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm. Gwelsom hefyd fod adborth yn cael ei nodi ar hysbysfyrddau yn yr ystafell staff. Dywedodd pob ymatebwr a gwblhaodd holiadur staff wrthym fod adborth ar brofiad cleifion (e.e. arolygon cleifion) yn cael ei gasglu, a dywedodd dwy ran o dair eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod yr adborth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn eu cyfarwyddiaeth neu eu hadran.

⁶ Mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) yn cynnig cyngor cyfrinachol, cymorth a gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag iechyd. Mae'n darparu pwynt cyswllt i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd trefniadau ar waith i gadw'r cleifion yn ddiogel yn yr uned.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y drws i'r ystafell cyffuriau a reolir wedi'i gloi.

Nid oedd gwybodaeth yn cael ei rheoli na'i storio'n ddiogel bob amser er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd y cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelodd y tîm arolygu fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus a'i fod wedi'i oleuo'n briodol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr uned yn teimlo'n ddigynnwrf ac yn hamddenol drwy gydol yr arolygiad ac roedd yr amgylchedd yn ddiogel i'r cleifion heb unrhyw rwystrau yn y coridorau, annibendod na pheryglon baglu. Gwelsom hefyd fod pobl ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad i'r uned. Cytunodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn hoffi'r amgylchedd ar y ward a bod y ward yn lân.

Gwelsom fod prosesau rhagorol ar waith i reoli risgiau a oedd yn cynnwys archwiliadau rheolaidd, trefniadau archebu effeithiol a rotas staff a oedd wedi'u cynllunio'n dda. Gwelsom hefyd waith tîm amlddisgyblaethol yn cael ei wneud gyda staff chwarae o ran cydlynu apwyntiadau cleifion a chydgyssylltu â staff y ward er mwyn paratoi ar gyfer apwyntiadau.

Hefyd, gwelodd y tîm arolygu grud cynnal wedi'i storio yn yr olchfa a oedd wedi'i lleoli oddi ar y prif goridor ger mynedfa'r uned. Gwnaethom siarad â staff a ddywedodd wrthym fod angen gwasanaethu'r crud cynnal a gwnaethant roi sicrwydd i ni nad yw'r ystafell yn cael ei defnyddio am fod golchfa arall ar gael

ar yr uned. Rydym yn cyngori y dylid symud y crud cynnal o'r ystafell hon a'i storio'n briodol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i gadw'r cleifion yn ddiogel yn yr uned. Roedd system intercom yn cael ei defnyddio er mwyn cael mynediad i'r uned. Gwelsom y staff yn gofyn i gleifion am eu manylion a'r rheswm dros eu hymweliad cyn iddynt gael mynediad i'r uned. Roedd yn rhaid i unrhyw un a oedd am adael yr uned ofyn i'r derbynnydd agor y drws, neu ofyn am gymorth aelod o'r staff i ddefnyddio ei gerdyn llithro.

Dyweddodd y staff wrthym pan oedd cleifion yn mynychu apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw lle roedd angen cyffuriau tawelu, megis botox neu sganiau MRI, bod dau neu dri gwely ar gael mewn cilfan dynodedig. Mae'r cleifion yn yr ardal hon yn cael eu goruchwyllo'n gyson gan nyrs ychwanegol sydd wedi'i lleoli yn ardal y gilfan drwy gydol proses adfer y claf.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod pob ardal yn yr uned yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Cafodd hyn ei gefnogi gan gleifion a'u rhieni/gofalwyr a ddywedodd wrthym fod yr uned, gan gynnwys yr ystafell chwarae, bob amser yn lân ac yn daclus a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd. Fodd bynnag, gwelsom fod hanner ardal y ward a oedd yn cael ei defnyddio fel ardal gilfan ar gyfer apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw yn cael ei defnyddio fel ardal storio ar gyfer cotiau/gwelyau. Roedd hon yn olygfa annymunol i'r plant a gwnaethom gynghori y dylid eu symud a'u storio rhywle arall.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro ar gael a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Gwelsom fod y staff yn cynnal safonau noeth o dan y penelin ac roedd gwisg y staff yn helpu gyda hyn.⁷ Hefyd, roedd cyfleusterau priodol ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo. Byddai hyn yn helpu i annog y

⁷ Yr arfer gorau ar gyfer staff sy'n ymwneud â gofal uniongyrchol i gleifion yw sicrhau eu bod yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd nac ewinedd ffug.

plant i olchi eu dwylo a chynnal hylendid da. Gwelsom fod weips dwylo a hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned, gan gynnwys yr ystafell chwarae. Gwelsom hefyd fod y staff yn golchi eu dwylo'n briodol ac yn defnyddio gel saniteiddio ar gyfer y dwylo pan fo angen hynny. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd yn cael eu cwblhau a oedd yn dangos bod y cyfraddau cydymffurfio yn uchel.

Cawsom sicrwydd fod proses ar waith ar gyfer sicrhau bod teganau, llyfrau a chyfarpar chwarae arall y plant yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Mae hyn yn golygu eu bod mor lân ac mor ddiogel â phosibl i'r plant eu defnyddio.

Gwnaethom nodi fod yr uned yn lân iawn ac yn daclus. Dywedwyd wrthym fod gan yr uned ddau swyddog cadw tŷ sy'n rhannu'r rôl ac yn gweithio gyferbyn â'i gilydd. Maent yn cwblhau llyfr cyfathrebu er mwyn trosglwyddo negeseuon i'w gilydd i nodi pa waith glanhau a gwblhawyd ac unrhyw ardaloedd yr oedd angen eu glanhau. Gwelsom hefyd fod cyfathrebu rhagorol rhwng y swyddogion cadw tŷ a'r staff nyrsio ar yr uned. Roedd gan y swyddog tŷ y gwnaethom siarad â hi wybodaeth ragorol am ei rôl a dywedodd wrthym fod unrhyw ystafell neu amgylchedd lle mae claf heintus neu glaf sy'n cael gofal nyrsio ataliol wedi treulio amser yn cael ei nodi a'i lanhau'n drylwyr. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau glanhau rheolaidd yn cael eu cwblhau a bod y cyfraddau cydymffurfio yn uchel.

Roedd gan yr uned ystafell en-suite ar wahân ar gyfer cleifion yr oedd angen gofal nyrsio ataliol arnynt, cyn iddynt gael eu trosglwyddo i ysbyty arall. Roedd hyn yn lleihau'r risg y câi'r haint ei drosglwyddo i gleifion eraill.

Roedd hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn orfodol i bob aelod o'r staff. Dywedodd bron pob un o'r staff yn eu holiaduron eu bod wedi ymgymryd â dysgu a datblygu ym maes rheoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gwnaethom siarad â nyrs gyswllt ar gyfer rheoli heintiau ar yr uned. Ei rôl yw gweithredu fel cyswllt rhwng ei maes clinigol ei hun a thîm rheoli heintiau yr ysbyty, gan godi ymwybyddiaeth o atal a rheoli heintiau ac addysgu cydweithwyr ac ysgogi staff i wella ymarfer. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal, a bod y cyfraddau cydymffurfio yn uchel. Cafodd canlyniadau'r archwiliadau eu harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell staff.

Maeth a hydradu

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar y ffordd roedd anghenion maeth y cleifion yn cael eu diwallu yn ystod eu cyfnod ar yr uned. Gwelsom fod cleifion

sydd wedi cael eu hatgyfeirio at yr uned yn cael eu hasesu'n gyson gan nyrsys er mwyn monitro eu statws o ran maeth a hydradiad.

Gwelsom fod jygiau o ddŵr ar gael i'r plant o fewn cyrraedd hawdd, a oedd yn cael eu hail-lenwi yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym fod opsiynau diodydd oer amgen ar gael yn hawdd i'r plant ar y ward neu yn ardal yr ystafell chwarae.

Roedd ardal gegin ddynodedig yn yr uned lle y gallai'r staff baratoi byrbrydau iach i'r plant. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion a oedd ar yr uned am gyfnod hirach yn cael prydau bwyd poeth o'r ffreutur. Dywedodd y staff wrthym y byddant yn darparu mwy nag un eitem o fwyd i'r cleifion os ydynt yn llwglyd ac os yw'r cyflenwadau bwyd yn isel, gallant ofyn am ragor o fwyd o'r ffreutur. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion maeth y cleifion yn cael eu diwallu drwy sicrhau bod dewis da o fwyd iach a maethlon ar gael. Gwelsom claf yn cael byrbryd a diod wedi'u gweini'n ddymunol ar hambwrdd. Dywedwyd wrthym hefyd fod gweithiwr cymorth gofal iechyd yn helpu'r plant i fwyta eu prydau os bydd angen.

Yn y detholiad o gofnodion cleifion a welwyd, gwelsom fod cleifion a oedd wedi cael eu hatgyfeirio at yr uned yn cael eu hasesu'n gyson gan y staff er mwyn monitro eu statws o ran maeth a hydradiad. Dywedodd y staff wrthym hefyd y cysylltir â deietegwyr dros y ffôn os bydd angen er mwyn iddynt roi cyngor ar glaf.

Yn y cofnodion cleifion a welwyd, gwelsom dystiolaeth fod Sgôr Diffyg Maethiad Pediatrig Yorkhill (PYMS) yn cael ei defnyddio. Cafodd hyn ei ddatblygu er mwyn helpu staff nyrsio a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i nodi plant yn yr ysbyty rhwng 1 ac 16 oed sy'n wynebu risg o ddiffyg maethiad a chynnig gofal priodol iddynt. Dywedodd y rheolwyr wrthym y cyflwynwyd yr adnodd hwn gan ddeietegwyr yn y bwrdd iechyd fel yr adnodd a ffefrir ganddynt. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau PYMS rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd canlyniadau'r archwiliadau yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell staff a dywedwyd wrthym fod y canlyniadau hyn hefyd yn cael eu bwydo yn ôl yng nghyfarfodydd misol y staff.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd yn hawdd i'r staff gael gafael ar bolisi'r bwrdd iechyd ar reoli meddyginiaethau yn electronig ar y fewnrwyd. Roedd y polisi yn cynnwys gwybodaeth am roi meddyginiaeth yn ddiogel a storio, rhagnodi a darparu cyffuriau yn ddiogel. Gwelsom fod y staff yn dilyn polisi'r bwrdd iechyd ar reoli meddyginiaethau gan gynnwys defnyddio amser tawel i gyfrifo'r ddos o feddyginiaeth. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod archwiliadau

sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ym maes rheoli meddyginiaeth er mwyn helpu i sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal.

Roedd cyffuriau a reolir yn cael eu diogelu mewn cypyrddau dan glo ac oergell dan glo yn yr ystafell cyffuriau. Fodd bynnag, nid oedd yr ystafell cyffuriau wedi'i chloi. Gwnaethom siarad â staff a ddywedodd wrthym nad yw'r ystafell yn cael ei chloi yn ystod y dydd er mwyn sicrhau mynediad hawdd iddi, ond caiff ei chloi dros nos. Gwelwyd bod ffiolau o sodiwm clorid, swcros a ffiolau dŵr ar gael yn yr ystafell cyffuriau nad oeddent o dan glo. Gwelsom fod ffiolau o sodiwm clorid hefyd yn cael eu storio mewn drôr nad oedd wedi'i gloi ar droli 'Hickman and Port' yn yr ystafell sefydlogi ac roedd ffiolau hydoddiant halwyn ar gael mewn droriau nad oeddent wedi'u cloi yn yr ystafell. Rydym yn argymhell y dylid cloi'r drws i'r ystafell cyffuriau a reolir bob amser ac y dylid rhoi trefniadau diogelu ar waith o ran cael mynediad i'r eitemau yn yr ystafell sefydlogi.

Gwelsom fod gwiriadau o gyffuriau a reolir yn cael eu cwblhau'n gyson bob dydd, ond nad oeddent yn cael eu cwblhau'n unigol. Rydym yn argymhell y dylid gwirio a llofnodi pob cyffur yn unigol ar y gofrestr cyffuriau.

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau tymheredd rheolaidd ar oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. Roedd hyn yn sicrhau bod meddyginiaeth mewn oergelloedd yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchwyr

Gwelodd y tîm arolygu dystiolaeth o arferion da ym mhob un o'r meysydd rhoi meddyginiaeth. Edrychwyd ar y ffordd roedd Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan yn cael eu cwblhau a nodwyd bod y cofnodion yn gyson ac yn gywir, gan gynnwys enwau'r cleifion a'r amseroedd pan gafodd y cyffuriau eu rhagnodi a'u rhoi. Roedd pob un o'r cofnodion yr edrychwyd arnynt yn cael eu cofnodi yn y fan a'r lle ac yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n briodol.

Dywedodd y staff wrthym fod gan yr uned fferyllydd pediatrig dynodedig sy'n rhoi cyngor ac arweiniad. Gwelsom dystiolaeth fod y fferyllydd yn cynnal gwiriadau rheolaidd o'r cyffuriau a reolir yn yr uned. Dywedodd y staff y gallant gael gafael ar stoc o feddyginiaeth yn eu hystafell cyffuriau ac y gallant ddosbarthu meddyginiaeth yn yr uned. Roedd system wirio dau berson ar waith yn erbyn y feddyginiaeth a ragnodir a ofynnwyd amdani gan glinigwyr. Os na fydd meddyginiaeth ar gael ar yr uned y tu allan i oriau, dywedodd y staff wrthym eu bod yn cysylltu â nyrs ddyletswydd yr ysbyty i gael gafael ar y feddyginiaeth drwy'r adran achosion brys.

Er na chawsom gyfle i arsylwi ar hyn yn ystod ein harolygiad, dywedwyd wrthym fod arbenigwr chwarae yn defnyddio chwarae i annog y plant i gymryd

meddyginiaeth ac yn defnyddio pyped i helpu wrth ymdrin â'r plant sy'n cymryd meddyginiaeth i'w tawelu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y drws i'r ystafell cyffuriau a reolir bob amser wedi'i gloi a bod trefniadau diogelu ar waith o ran cael mynediad at yr holl gyffuriau yn yr ystafell sefydlogi.
- Bod gwiriadau cyffuriau a reolir yn cael eu llofnodi'n unigol ar y gofrestr cyffuriau.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i nodi, hybu a diogelu lles plant a oedd yn agored i niwed neu'n wynebu risg.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant diogelu yn orfodol ar gyfer y staff ar yr uned. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael hyfforddiant diogelu yn ddiweddar. Cawsom sicrwydd hefyd fod y ffigurau cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant diogelu ar gyfer staff ar yr uned yn uchel.

Dywedodd y rheolwyr wrthym fod y prosesau diogelu yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm a diwrnodau hyfforddi a chaiff unrhyw ddiweddariadau diogelu eu harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell staff. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr uned wedi penodi arweinydd diogelu y gellir cysylltu ag ef i gael cyngor.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd pryder ynghylch diogelu yn codi a gwnaethant nodi bod cysylltiadau da â staff gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu.

Rheoli gwaed

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yr oedd angen trallwysladau gwaed neu gynhyrchion gwaed arnynt fel arfer yn cael eu trin yn ysbyty Glangwili. Roedd hyn yn cynnwys cleifion oncoleg. Fodd bynnag, mae staff yr uned yn cael hyfforddiant blynyddol ar reoli gwaed rhag ofn y bydd angen yn codi. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y cofnodion hyfforddiant a welwyd.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod cyfarpar a dyfeisiau meddygol i ddiwallu anghenion y cleifion ar gael ar yr uned. Dywedodd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod ganddynt ddeunyddiau, nwyddau a chyfarpar digonol i wneud eu gwaith 'bob amser' neu 'fel arfer'. Gwelsom fod prosesau ar waith i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei lanhau a'i gynnal a'i gadw er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer y defnydd a fwriadwyd. Roedd yr holl gyfarpar a wiriwyd gan y tîm arolygu wedi cael ei wirio/gwasanaethu yn ddiweddar.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal da a'u bod yn ymddangos yn gyfforddus ar yr uned. Roedd llai na hanner y staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno mai gofal cleifion yw blaenoriaeth bennaf y sefydliad a dywedodd bron traean nad yw byth yn flaenoriaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod bob amser neu fel arfer yn fodlon ar ansawdd y gofal y gallant ei roi i'r cleifion. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe byddai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas.

Cawsom dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal bob mis ar yr uned. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad dogfennau Sgôr Rhybudd Cynnar Pediatrig (PEWS)⁸, hylendid dwylo, rheoli heintiau, cydymffurfiaeth â gofynion noeth o dan y penelin ac archwiliad rheoli meddyginiaeth. Gwelsom dystiolaeth ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell staff fod lefelau cydymffurfiaeth ym mhob maes yn uchel.

Dywedwyd wrthym fod archwiliad dogfennau PEWS wedi cael ei gynnal bob mis gan fod materion wedi cael eu nodi mewn perthynas â chwblhau dogfennaeth yn gywir. Fodd bynnag, nodwyd yng Nghylchlythyr Pediatrig y Bwrdd Iechyd fod ffigurau cydymffurfio bellach yn gyson uchel a'u bod wedi cael eu hatgyfeirio at y cyfarfod sicrhau ansawdd lle y cytunwyd mai dim ond bob chwarter y byddai angen cynnal y cyfarfodydd am weddill y flwyddyn.

⁸ Mae'r sgôr rhybudd cynnar pediatrig (PEWS) yn adnodd sy'n gwella'r broses o ganfod dirywiad clinigol mewn cleifion pediatrig ac ymateb iddo, ac mae'n elfen allweddol o ddiogelwch cleifion a gwella canlyniadau cleifion.

Gwelsom fod un o'r ciwbiclau yn yr uned yn cael ei ddefnyddio ar gyfer clinigau arbenigol, megis plant â diabetes. Cawsom wybod hefyd bod clinigau arbenigol ychwanegol wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r uned hefyd yn ymgymryd â gwaith dyddiol nad yw wedi'i gynllunio pan caiff plant eu hatgyfeirio at yr uned naill ai gan eu meddyg teulu, ymwelydd iechyd, bydwraig neu nyrs gymunedol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dyweddodd y staff wrthym fod yr uned yn cynnal clinigau gwaed a arweinir gan nyrsys. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud gan feddygon teulu ac mae cleifion yn gallu cael mynediad at y clinigau ar unwaith am nad oes unrhyw restrau aros. Dywedwyd wrthym fod yr uned wedi cael adborth cadarnhaol gan gleifion a'u rhieni/gofalwyr.

Dyweddwyd wrthym fod nyrs Band 6 wedi cwblhau cwrs uwch-ymarferydd nyrsio er mwyn datblygu yn ei gyrfa. O ganlyniad i'r llwyddiant hwn, mae trefniadau ar waith i ddwy nyrs arall o bob uned bediatrig fynychu'r cwrs.

Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod nyrs Band 5 wedi cyflwyno cwrs imiwneiddio babanod yn yr uned.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cyfrinachedd cleifion a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018) yn yr uned. Ar y cyfan, gwelsom fod gwybodaeth cleifion yn cael ei rheoli a'i storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd cleifion.

Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i rai cofnodion cleifion ar fwrdd mewn ystafell seminar nad oedd wedi'i chloi ar hyd y prif goridor a oedd yn arwain at ddesg y dderbynfa. Roedd adegau pan nad oedd staff yn bresennol yn yr ystafell. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai cleifion neu ymwelwyr â'r uned gael gafael ar wybodaeth am gleifion. Rydym yn argymhell y dylai cofnodion cleifion gael eu storio'n ddiogel yn yr ystafell er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Roedd y fewnrwyd yn llawn gwybodaeth i'r staff, gan gynnig amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau clinigol yn ymwneud â phediatreg a materion meddygol yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Yn ôl y staff y gwnaethom siarad â nhw, gellid cael gafael arnynt yn hawdd ar y fewnrwyd. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn gallu cael gafael ar yr holl bolisïau, eu darllen a'u defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd y cleifion.

Cadw cofnodion

Fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd yr uned wedi bod yn cwblhau archwiliadau o gofnodion cleifion bob mis, ond penderfynwyd nad oedd angen eu cynnal mor aml ac y dylid eu cynnal bob chwarter yn dilyn gwelliannau i'w hansawdd.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion y cleifion yn yr uned. Yn gyffredinol, roedd cofnodion y cleifion o safon dda, yn hawdd eu deall ac yn llawn gwybodaeth. Gwelsom fod yr holl ddogfennau nyrsio wedi'u llofnodi a'u dyddio'n briodol. Fodd bynnag, gwelsom anghysondebau o ran cwblhau enwau meddygon, rhifau cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac enghreifftiau lle nad oedd y llofnod yn ddealladwy. Gwelsom hefyd nad oedd dyddiad ac amser yr asesiad na dyddiad derbyn a rhyddhau'r claf wedi'u cwblhau ar gofnod arall gan feddyg. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd siart monitro hylif wedi cael ei chwblhau ar gyfer plentyn a oedd wedi cael ei dderbyn i'r uned am ei fod yn chwydu. Gwnaethom siarad â rheolwr a ddywedodd wrthym y byddai siart monitro hylif fel arfer yn cael ei defnyddio mewn achosion o'r fath ond ni allai esbonio'r diffyg yn yr enghraifft hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl gofnodion y cleifion yn cyrraedd safonau cadw cofnodion proffesiynol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu.

Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn yr uned ac o waith tîm amlddisgyblaethol da.

Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid cynnal adolygiad o ddigonolrwydd y sianelau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd grŵp gwasanaethau plant y Bwrdd Iechyd yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod gweithredol ar gyfer gwasanaethau plant a chyfarfod adolygu cyflenwi gweithredol a rheoli perfformiad bob mis. Gwelsom hefyd fod cyfarfodydd sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal bob mis lle mae'r trafodaethau yn cynnwys hanfodion gofal, archwiliadau safonau gofal iechyd a chydymffurfiaeth fisol â dangosyddion gofal pediatrig. Mae cyfarfodydd Uned Gofal Dydd Bediatrig hefyd yn cael eu cynnal bob mis.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd Datix yn cael eu cynnal bob yn ail fis lle y caiff digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt, ymchwiliadau a'u canfyddiadau eu trafod mewn fformat amlddisgyblaethol. Gwelsom fod cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu cynhyrchu a bod gwybodaeth/gwersi yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau pediatrig y bwrdd iechyd er mwyn cefnogi newidiadau i ymarfer a dysgu. Nodwyd themâu a thueddiadau, gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw feysydd ymarfer roedd angen mynd i'r afael â nhw yn y bwrdd iechyd.

Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod cylchlythyr pediatrig misol wedi cael ei gyflwyno a'i fod yn cael ei ddsbarthu ymhlith y staff. Roedd y cylchlythyr yn cynnwys adborth o ddigwyddiadau, gan dynnu sylw at feysydd lle nodwyd arfer da, gwybodaeth am hyfforddiant a newyddion arall yn ymwneud â'r tîm. Roedd gwybodaeth yn ymwneud â dysgu gwersi o ddigwyddiadau hefyd yn cael ei harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell staff.

Roedd y bwrdd iechyd yn dangos proses glir a chadarn o ran rheoli digwyddiadau clinigol. Roedd rheolwr sicrhau ansawdd uwch-nyrsys wedi'i benodi a oedd yn gyfrifol am adolygu digwyddiadau clinigol ym maes pediateg aciwt ar draws y bwrdd iechyd, ymchwilio iddynt a'u rheoli, a neilltuwyd cyfrifoldeb cyffredinol yn hyn o beth i nyrs y gyfarwyddiaeth. Ni chawsom gyfle i siarad â'r rheolwr sicrhau ansawdd uwch-nyrsys yn ystod yr arolygiad. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau ac nad oedd y rhain yn cael eu trin mewn modd cosbol byth. Dywedodd y staff wrthym fod pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant Datix (system rheoli digwyddiadau electronig) a'u bod yn gwybod pryd y dylent uwchgyfeirio pryderon.

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur fod staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yn cael eu trin yn deg ac ni wnaeth unrhyw ymatebwr anghytuno â hyn. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn cael gwybod am ddigwyddiadau ac yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau y rhoddyd gwybod amdanynt, ac ni wnaeth unrhyw ymatebwr anghytuno â hyn. Nododd un aelod o'r staff:

“Mae'r staff yn ddigon bodlon rhannu camgymeriadau a phryderon ac mae pob un ohonynt yn defnyddio Datix yn hwylus.”

Gwnaethom siarad â'r rheolwr darparu gwasanaethau a ddywedodd wrthym fod dangosfwrdd pediatrig wrthi'n cael ei ddatblygu gan y rheolwr sicrhau ansawdd uwch-nyrsys. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r bwrdd iechyd cyfan, ond ar gyfer pob ysbyty unigol a byddai'n darparu gwybodaeth am weithgareddau clinigol gan gynnwys digwyddiadau a dangosyddion clinigol.

Cawsom sicrwydd bod y gofrestr risg fewnol yn cael ei monitro a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn ôl yr angen.

Roeddem o'r farn bod yr hysbysfwrdd yn ardal y staff yn adnodd cyfathrebu gwych. Mae'n dangos amrywiaeth o wybodaeth gyfredol a gweithredol, gan

gynnwys cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant i staff, cyfraddau cydymffurfio ag archwiliadau, diweddariadau a chyngor clinigol, diogelu a gwybodaeth i fyfyrwyr. Roedd y tîm arolygu o'r farn bod hyn yn bwysig iawn gan y gallai'r uned deimlo'n ynysig o ystyried ei safle daearyddol a'i lleoliad ar wahân i ysbyty Glangwli a'i brif unedau pediatrig.

Gwnaethom ystyried y gwaith archwilio sy'n cael ei wneud ar y ward, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau hanfodol yn cael eu cyflawni. Cawsom sicrwydd bod goruchwyliaeth ddigonol gan reolwyr y wardiau i fod yn hyderus bod proses gadarn ar waith ar gyfer gweithgareddau archwilio, er mwyn helpu i ddangos bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod gan bob aelod o'r staff rôl a chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer archwiliadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar y staff drwy annog perchenogaeth a chyfrifoldeb. Gwelsom fod yr Archwiliad Hanfodion Gofal Safonau Iechyd a Gofal wedi'i gwblhau gyda phob maes yn cyflawni cyfraddau cydymffurfio cyson uchel. Roedd canlyniadau'r archwiliadau yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell staff a dywedwyd wrthym fod y canlyniadau hyn hefyd yn cael eu bwydo yn ôl yng nghyfarfodydd misol y staff.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Caiff yr uned ei rheoli gan un o bedair nyrs Band 6 o ddydd i ddydd. Drwy arsylwi a thrafodaethau â'r staff gwelsom eu bod yn dangos sgiliau arwain rhagorol, eu bod yn brofiadol iawn ac yn gallu rheoli'r uned. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod staff nyrsio Band 5 yn arddangos profiad a sgiliau rhagorol o ran rheoli eu llwythi achosion eu hunain. Roedd yn amlwg i'r tîm arolygu fod y tîm staffio ehangach yr un mor brofiadol, a bod pob aelod o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydlynus yn yr uned, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dywedwyd wrthym hefyd fod trosiant staff isel.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur fod y sefydliad yn annog gwaith tîm bob amser neu fel arfer ac roedd y mwyafrif o'r farn bod y sefydliad yn gefnogol bob amser neu fel arfer.

Caiff yr uned ei goruchwyllo gan nyrs Band 7 a benodwyd yn ddiweddar, sydd wedi'i lleoli yn ysbyty Glangwili. Dywedodd y staff wrthym fod y nyrs Band 7 yn ceisio bod yn yr uned ddeuddydd yr wythnos, ond roedd ei phresenoldeb wedi bod yn anghyson. Fodd bynnag, roedd yn hawdd mynd ati ac roedd bob amser ar gael dros y ffôn neu drwy e-bost. Ar y cyfan, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai uwch-reolwyr ar gael i siarad â nhw dros y ffôn os bydd angen a'u bod yn cyfathrebu'n dda â'r staff. Fodd bynnag, nid oeddent i'w gweld

yn aml ar yr uned. Dywedodd y rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw fod tîm yr uwch-reolwyr yn gefnogol iawn.

Dywedodd pob aelod o'r staff a'r rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw fod yr uned wedi'i staffio'n dda. Dywedwyd wrthym fod gan yr uned ddwy nyrs gofrestredig ar ddyletswydd a oedd yn cynnwys y nyrs Band 6. Mae lefelau staffio yn cynyddu i dair nyrs gofrestredig ar ddiwrnodau lle y mae gan cleifion apwyntiadau yn y theatr neu pan gaiff achosion lle y mae angen cyffuriau tawelu eu rhestru. Mae cynorthwydd gofal iechyd, arbenigwr chwarae a chlerc ward ar ddyletswydd bob dydd hefyd. Dywedwyd wrthym fod dau bediatregydd ymgynghorol wedi'u lleoli yn yr uned a nododd y staff fod gwaith amlddisgyblaethol rhagorol yn mynd rhagddo a bod ganddynt gydberthnasau gwaith da â nhw.

Dywedodd y staff wrthym fod dau glerc ward yn yr uned yn flaenorol; fodd bynnag, dim ond un oedd bellach. Dywedwyd wrthym ei fod yn gweithio rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Dywedodd y staff wrthym, pan na fydd clerc y ward yn gweithio, nad oes unrhyw staff cyflenwi ar gael sy'n achosi ôl-groniad o waith pan fydd yn dychwelyd. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwyr wrthym fod gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi cael hyfforddiant i reoli'r rhan fwyaf o waith clerc y ward er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth a bod trefniadau ôl-lenwi yn cael eu rhoi ar waith er mwyn cyflenwi ar gyfer bwlch clinigol y gweithiwr cymorth gofal iechyd.

Dywedodd y rheolwyr wrthym fod adnodd aciwtedd yn cael ei ystyried gan grŵp staffio nyrsys pediatreg Cymru gyfan ar hyn o bryd i'w gyflwyno ym maes gofal dydd. Dywedwyd wrthym y gellir cael gafael ar staff cyflenwi o ysbyty Glangwili pan fo angen, ond nid oedd angen gwneud hyn yn aml. Dywedodd y rheolwyr, mewn achosion lle roedd angen staff ychwanegol, y bydd y staff ar ddyletswydd yn ceisio trefnu hynny, neu bydd y nyrs Band 7 yn cyflenwi. Gall y staff drefnu staff asiantaeth hefyd os bydd angen. Gwnaethom adolygu rota'r staff ac roeddem yn fodlon bod y lefelau staffio yn briodol.

Dywedodd tua hanner y staff a gwblhaodd holiadur fod bob amser neu fel arfer ddigon o staff yn y sefydliad i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, er i rai ymatebwyr nodi nad oedd byth digon o staff yn y sefydliad fel ymateb i'r cwestiwn hwn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod bob amser neu fel arfer yn fodlon ar ansawdd y gofal y gallant ei roi i'r cleifion.

Gwnaethom siarad â'r nyrs datblygu ymarfer a oedd yn frwdfrydig ac yn wybodus o ran ei rôl a gofynion hyfforddi'r staff. Mae wedi'i lleoli yn ysbyty Glangwili ond mae'n gyfrifol am gydlyn hyfforddiant ar gyfer staff pediatrig ar draws y tri phrif ysbyty yn ardal y bwrdd iechyd. Gwelsom fod amrywiaeth eang

o gymorth addysgol ar gael ar gyfer y staff cofrestredig a'r staff anghofrestredig ac roedd ymrwymiad clir o ran sicrhau diogelwch y wardiau a chymhwysedd y staff sy'n darparu gofal.

Gwelsom fod pob aelod newydd o'r staff yn cael sesiynau sefydlu unigol a pheccyn llwybr datblygu gwybodaeth a sgiliau. Mae hyn yn cynnwys portffolio o gymwyseddau a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael.

Gwnaethom adolygu cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant statudol a gorfodol. Gwelsom dystiolaeth fod lefelau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn uchel. Roedd hyn yn cynnwys atal a rheoli heintiau a threfniadau cynnal bywyd pediatriig sylfaenol. Gwnaethom hefyd nodi fod nifer o sesiynau hyfforddiant pediatriig ar ddod ar gyfer staff a oedd yn cynnwys hyfforddiant efelychu, hyfforddiant atal camgymeriadau meddygol, hyfforddiant dadebru a hyfforddiant cynnal bywyd pediatriig brys. Dywedwyd wrthym fod pob nyrs Band 6 yn yr uned yn cael hyfforddiant cynnal bywyd pediatriig estynedig ac y caiff nyrsys pediatriig hyfforddiant Cynnal Bywyd Pediatriig Ewropeaidd. Bydd hyn yn unol â'r cyngor a roddir yn yr Egwyddorion Staffio Interim ar gyfer Nyrsys Cleifion Mewnol Pediatrieg (Cymru)⁹ sef y dylai o leiaf un nyrs fesul sifft ym mhob ardal glinigol (ward/adran) fod wedi cael hyfforddiant APLS/EPLS.

Gwelsom ddogfen asesiad risg yn ymwneud â darpariaeth hyfforddiant dadebru pediatriig y bwrdd iechyd. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at y ffaith na lwyddwyd i ddarparu gwasanaeth dadebru cyson a pharhaol drwy sicrhau bod y staff yn cael eu hyfforddi a'u diweddarau'n rheolaidd. Nid oedd y ddogfen asesiad risg hon wedi cael ei diweddarau ers 2016/2017. Er i ni gael ein sicrhau bod y staff yn yr uned wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol, gwnaethom argymhell y dylid cynnal asesiad risg cyfredol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant dadebru pediatriig yn cael ei ddarparu'n ddigonol ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Gwelsom mai'r gyfradd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol diogelwch tân lefel 2 oedd 40%. Gwnaethom siarad â'r nyrs datblygu ymarfer a ddywedodd wrthym fod hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y swyddog tân wedi canslo 3 sesiwn

⁹ Cyfres o egwyddorion arweiniol interim sy'n cefnogi'r broses o gynllunio lefelau staffio nyrsys mewn gwasanaethau cleifion mewnol pediatriig a roddwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru ym mis Mehefin 2019. Ni ddisgwylir i Fyrddau Iechyd gydymffurfio'n llawn ar unwaith, ond dylent weithio tuag at gyflawni'r egwyddorion.

hyfforddi ar ddiwedd 2019. Dywedwyd wrthym hefyd fod anawsterau o ran sicrhau hyfforddiant pellach.

Dywedwyd wrthym fod diwrnodau datblygu ymarfer yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant pediatrig Band 6 a oedd yn cynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau, adeiladu tîm, arweinyddiaeth a thrafodaethau ar sut i wella'r gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at gyfathrebu gwell â'r staff yn unedau pediatrig yr ysbytai eraill.

Dywedodd y nyrs datblygu ymarfer wrthym, er nad yw'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant pediatrig i staff cyswllt pediatrig yr adran achosion brys, ei bod yn rhoi cymorth iddynt ac yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw ddiweddariadau ar unrhyw newidiadau yn y nodiadau pediatrig, er enghraifft siartiau Sgôr Rhybudd Cynnar Pediatrig.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur fod yr hyfforddiant neu'r gweithgareddau dysgu a datblygu bob amser neu fel arfer yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr ei fod yn eu helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt ei fod yn eu helpu i ddarparu profiad gwell i gleifion. Dywedodd y staff wrthym fod achosion lle nad oeddent yn gallu manteisio ar rai gyfleoedd hyfforddiant am nifer o resymau a oedd yn cynnwys salwch staff. Roedd yr hyfforddiant y cyfeiriwyd ato yn cynnwys hyfforddiant gosod canwlâu, diogelu lefel 3 a Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser neu fel arfer yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad. Dywedodd tua thraean o'r ymatebwyr fod bob amser neu fel arfer gyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff, er i rai ymatebwyr ddweud nad oes byth gyfathrebu effeithiol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw nad oedd yr uwch-reolwyr yn cyfathrebu llawer â nhw mewn perthynas â phenderfyniadau pwysig a oedd yn effeithio arnynt.

Datgelodd trafodaethau â'r rheolwyr fod system sefydledig ar waith ar gyfer cwblhau arfarniadau ac adolygiadau datblygu personol (PADR). Roedd hynny'n golygu bod system ffurfiol ar waith ar gyfer ystyried a oedd hyfforddiant blaenorol wedi bod yn effeithiol. Gwelsom fod cyfradd cydymffurfio o 100% yn yr uned. Roedd arfarniadau hefyd yn cael eu hystyried yn fforwm defnyddiol ar gyfer nodi anghenion hyfforddi'r staff yn y dyfodol. Dywedwyd wrthym, o ganlyniad i geisiadau am hyfforddiant ychwanegol yn ystod arfarniadau, fod dau aelod o'r staff wedi mynychu cwrs gofal critigol a bod disgwyl i bedwar aelod o staff arall fynychu'r cwrs hwnnw.

Gwnaethom ystyried llesiant y staff a ph'un a oeddent yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd galwedigaethol pe bai angen. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael yn y bwrdd iechyd a sut y gellir cael gafael arno. Roedd tua hanner y staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant ac roedd y mwyafrif yn cytuno bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod asesiad risg cyfredol yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod hyfforddiant dadebru pediatrig yn cael ei ddarparu'n ddigonol ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd
- Bod y staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân lefel 2 cyfredol
- Bod adolygiad yn cael ei gynnal o ddigonolrwydd y sianelau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015¹⁰](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

¹⁰ <https://llyw.cymru/safonau-iechyd-gofal>

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg

Ward/adran: Ward Puffin, Uned Gofal Dydd Bediatrig

Dyddiad arolygu: 12 a 13 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion sicrwydd uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty cyffredinol Llwynhelyg

Ward/adran: Uned Puffin/Uned Gofal Dydd Bediatrig

Dyddiad arolygu: 12 a 13 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am hybu iechyd ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae taflenni gwybodaeth ar gael ar uned Puffin a gellir cael gafael arnynt yn hawdd. Caiff y deunydd hyn ei arddangos yn yr ystafell chwarae / ystafell aros er mwyn i'r plant, rhieni a theuluoedd gael gafael arno'n hawdd.	Uwch-brif Nyrs – Uned Gofal Dydd Bediatrig	O ganlyniad i COVID-19, cafodd uned Puffin ei symud i Ysbyty Cyffredinol Glangwili. Caiff pob cam ei roi ar waith pan fydd yr uned bediatrig yn

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				dychwelyd i Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Fodd bynnag, caiff hyn ei adolygu bob chwarter a chyflwynir y wybodaeth yn ystod y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Menywod a Phlant.
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y caiff llwybr/canllaw ar gyfer sepsis pediatrig ei ddatblygu a'i roi ar waith fel blaenoriaeth, ac y caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant perthnasol. • Ei fod yn ystyried sut y gellir trosglwyddo pob claf mewn modd 	5.1 Mynediad amserol	Mae'r gwaith o baratoi Llwybr Sepsis Pediatrig yn mynd rhagddo ac yn aros am fewnbwn gan y tîm meddygol. Ar ôl iddo gael ei roi ar waith, caiff cynllun cynhwysfawr ar hyfforddiant a rhannu gwybodaeth ei gyflwyno.	Arweinydd Clinigol Pediatrig/Nyrs Ymarfer Datblygiad Proffesiynol Pediatrig Uwch-brif Nyrs – a	Tachwedd 2020 O ganlyniad i COVID-19,

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
amserol heb ddibynnu ar ewyllys da'r staff i weithio'n hwyr pan fo angen.		Rydym yn trafod amseroedd trosglwyddo, amseroedd cyfnewid ac oriau gwaith â chriw'r cerbyd ambiwlans dynodedig. Byddai hyn yn helpu i sicrhau y caiff cleifion eu trosglwyddo mewn modd mwy amserol ac yn lleihau'r angen i weithio'n hwyr.	Uned Gofal Dydd Bediatrig	cafodd uned Puffin ei symud i Ysbyty Cyffredinol Glangwili. Caiff pob cam ei roi ar waith pan fydd yr uned bediatrig yn dychwelyd i Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Fodd bynnag, caiff hyn ei adolygu bob chwarter a chyflwynir y wybodaeth yn ystod y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				Menywod a Phlant.
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod y drws i'r ystafell cyffuriau a reolir bob amser wedi'i gloi a bod trefniadau diogelu ar waith o ran cael mynediad at yr holl gyffuriau yn yr ystafell sefydlogi. Bod gwiriadau cyffuriau a reolir yn cael eu llofnodi'n unigol ar y gofrestr cyffuriau. 	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Mae clo digidol newydd wedi'i osod a dim ond drwy ddefnyddio'r clo digidol y gellir agor yr ystafell er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu cadw'n ddiogel. Caiff yr holl feddyginiaethau yn yr ystafell sefydlogi eu cadw mewn cabinetau meddyginiaeth dan glo.</p> <p>Cynhelir gwiriadau cyffuriau a reolir yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd, lle y caiff gwiriadau cyffuriau a reolir eu cynnal a'u dogfennu fel proses gyffredinol ar gyfer gwirio stoc. Llofnodir er mwyn cadarnhau bod y cyffuriau a reolir yn cyfateb yn gywir. Nid yw polisi'r bwrdd iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r staff lofnodi eu bod wedi gwirio pob meddyginiaeth yn unigol.</p>	Uwch-brif Nyrs – Uned Gofal Dydd Bediatrig	<p>Cwblhawyd Mawrth 2020</p> <p>Cwblhawyd Mawrth 2020</p>
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion	3.4 Llywodraethu	Cafodd yr holl gofnodion cleifion eu	Uwch-brif Nyrs –	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cleifion yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd y cleifion.	Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	symud o'r ystafell gynadledda ar unwaith. Gosodwyd hysbysiad yn rhybuddio'r staff na ddylid gadael nodiadau heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg. Cafodd cwpwrdd y gellir ei gloi ei archebu i storio nodiadau er mwyn galluogi i'r ystafell gynadledda gael ei defnyddio fel ardal i'r staff meddygol gwblhau dyletswyddau gweinyddol a gweithdrefnau rhyddhau cleifion. Dylid gosod nodiadau yn y cwpwrdd y gellir ei gloi pan fydd yn ei le.	Uned Gofal Dydd Bediatrig	Mawrth 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl gofnodion y cleifion yn cyrraedd safonau cadw cofnodion proffesiynol.	3.5 Cadw cofnodion	Mae memo wedi cael ei ddisbarthu i'r staff i'w hatgoffa am agwedd broffesiynol y polisi dogfennu/cadw cofnodion. Mae archwiliadau dogfennaeth yn cael eu cynnal bob chwarter a rhoddir adborth i'r staff yn ystod cyfarfodydd uned. Caiff themâu eu nodi a rhoddir adborth i staff unigol os bydd angen er mwyn gwella ymarfer.	Uwch-brif Nyrs – Uned Gofal Dydd Bediatrig	Cwblhawyd Mawrth 2020

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod asesiad risg cyfredol yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod hyfforddiant dadebru pediatrig yn cael ei ddarparu'n ddigonol ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Bod y staff yn cael hyfforddiant cyfredon lefel dau ar ddiogelwch tân Bod adolygiad yn cael ei gynnal o ddigonolrwydd y sianelau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol. 	7.1 Y Gweithlu	<p>Cwblhawyd yr asesiadau risg ac mae'r staff yn cael hyfforddiant drwy raglen dreigl. Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID-19, mae oedi o ran hyfforddiant wyneb yn wyneb ac mae'r niferoedd y gellir eu hyfforddi yn llai. Bydd y PPPDN yn cynnal y prosesau trefnu apwyntiadau yn ogystal ag edrych ar fframweithiau electronig amgen y gellir eu hystyried at ddibenion hyfforddiant.</p> <p>Bydd Uwch-dîm y Gyfarwyddiaeth yn sicrhau bod cysylltiadau cyfathrebu yn cael eu darparu a'u cynnal â'r tîm gweithredol.</p>	<p>Nyrs Ymarfer a Datblygiad Proffesiynol Pediatrig / Uwch-brif Nyrs – Uned Gofal Dydd Bediatrig</p> <p>Pennaeth Nyrsio ar gyfer Pediatreg a Babanod Newyddenedigol.</p>	<p>Cafodd hyn ei ohirio o ganlyniad i COVID-19. Mae staff o Uned Puffin wedi cael eu symud i Ysbyty Cyffredinol Glangwili a chaiff hyfforddiant ei neilltuo yng nghynllun hyfforddiant y ward pediatrig.</p> <p>O ganlyniad i COVID-19, cafodd uned Puffin ei symud i Ysbyty</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				<p>Cyffredinol Glangwili. Caiff pob cam ei roi ar waith pan fydd yr uned bediatrig yn dychwelyd i Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Fodd bynnag, caiff hyn ei adolygu bob chwarter a chyflwynir y wybodaeth yn ystod y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Menywod a Phlant.</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Paula Evans

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 15 Gorffennaf 2020